Cofnodion Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Chwefror 28ain, 2007 am 7.30pm.

Presennol: Y Maer Cyng Hugh Towns, Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Ros Bellamy, Cyng Pam Steane Price, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Edward Thomas, Cyng Roy Davies, Cyng Fran Murphy
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Dim

Cyn y cyfarfod daeth Eleri Davies o Brosiect Tywi Afon yr Oesoedd i annerch y Cynghorwyr. Roedd yn gobeithio y byddai'r Cyngor yn dod yn bartner gweithgar gyda'r gweithgareddau y trefnir.

Materion yr Heddlu : Siaradodd PC Howie Davies ag aelodau fel y Rheolwr newydd ar gyfer Plismona'r Gymdogaeth yn Llanymddyfri. Anfonodd PC Vernon Thomas ei ymddiheuriadau am absenoldeb oherwydd salwch. Dywedodd PC Davies fod dau Swyddog newydd wedi'u penodi i weithio fel rhan o dim fydd yn cynnwys Llanymddyfri a Llandeilo. Roedd yn hyderus y byddai trigolion Llandeilo yn gweld gwelliant o ganlyniad i'r strategaeth plismona cymunedol newydd.
O ganlyniad i'r drafodaeth nodwyd tri mater er mwyn i PC Davies eu hystyried fel rhan o'r strategaeth ar gyfer y 12 wythnos nesaf.

- Parcio ar linellau dwbl yn Heol Rhosmaen.
- Ymddygiad gwrth-gymdeithasol ym Mharc Le Conquet a Pharc Penlan
- Adroddiad ar ddigwyddiad Hiliol

Gofynnodd y Cyng Colin Jenkins am wneud y ffyrdd y gellid cyfathrebu â'r swyddogion hyn yn glir i bawb.

Cof 191 /Chwefror/07 Cofnodion Blaenorol
Cymeradwywyd ac arwyddwyd Cofnodion y Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ddydd Mercher, 24ain Ionawr, 2007 fel cofnod cywir.
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn a eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ddydd Mercher 14eg Chwefror fel cofnod cywir, wedi cynnwys yr ychwanegiadau canlynol:
Parth: Cais Cynllunio E/15318. *Sylw – Dim gwrthwynebiad, ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r canllawiau cadwraeth. Roedd y Cyngor yn siomedig mai cais adolygol oedd hwn.* Cynigiwyd gan y Cyng Fran Murphy ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Chwefror 14eg, 2007 fel cofnod cywir wedi gwneud y newid canlynol
Cof 188/Chwefror/07 ychwanegu 2. Offer Swyddfa. Y Clerc i ddod o hyd i ddyfynbrisau am dri cluniadur i staff erbyn y cyfarfod nesaf.
Ychwanegu 4. Materion yn ymwneud â thân gwyllt. Gohiriwyd y rhain tan y cyfarfod nesaf oherwydd erbyn hynny bydd yr Is-bwyllgor Tân Gwyllt wedi cwrdd.

Cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 192 / Chwefror / 07 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Adroddodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones fod Mr Ed Carson o CSC wedi ystyried cais i osod rhwyd metel ar y Bont Siglo ond wedi cynghori y dylai peiriannydd sifil gael golwg ar strwythur y bont. Mae Mr Eifion Evans wedi ymgymryd â gwaith Mr Bruce Wallace. Rhoddir ystyriaeth i wneud gwelliannau i lwybr troed Ysgubor Abad, yn cynnwys y rheilins Fictoraidd a allai gael eu cynnwys fel rhan o gais am grant o dan y Prosiect Afon yr Oesoedd.

Gan fydd Parc Penlan yn dathlu ei ganmlwyddiant yn fuan, mae'r Cyng Jones yn cynnal trafodaethau gyda Mr Gerwyn Thomas ynglŷn â'r gwelliannau i'r Parc. Mae'n debygol y bydd y Farchnad Nwyddau yn mynd ar werth yn fuan o dan ddeddfwriaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer eiddo masnachol gwag.

Cof 193 / Chwefror / 07 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

1. Gohebiaeth gan Mr Trevor Sage yn nodi y byddai Mr John McAvoy yn galw cyfarfod gyda phartïon sydd â diddordeb parthed y Mannau Parcio i'r Anabl y tu allan i'r Neuadd Ddinesig. Bydd y Cyng Colin Jenkins yn cynrychioli Cyngor y Dref.
2. Adroddodd y Cyng Roy Davies ar gyfarfod y mynychodd ef a'r Cyng Richard Wallace gyda phartneriaeth Davies Richards. Mae Davies Richards wedi cyflogi 'CDM Planning' ddatblygu cynllun gorolwg ar gyfer y Chwarter Gogleddol i'w ystyried gan y pwyllgor rhanddalwyr. Bydd Cyngor y Dref yn un o'r rhanddalwyr. Anfoner y cynllun at CSC am gymeradwyaeth cynllunio erbyn Medi 2007. Enwebwyd y Cyng Edward Thomas i ymuno ag is-bwyllgor y Cyngor ynghyd â'r Cyng Fran Murphy, Cyng Roy Davies a'r Cyng Richard Wallace. Dyddiad y cyfarfod nesaf gyda Davies Richards fydd 26ain Mawrth.
3. Parth. Cof 170/Ionawr/07. Does yna ddim dyddiad wedi'i gadarnhau. Bydd y Cyng Hugh Towns yn trafod gyda Mr Gwilym Hughes.
4. Parth. Cof 175 / Ionawr / 07. Roedd yna ormod o gynrychiolwyr eisiau mynychu'r Seminar Cynllunio ac felly ni aeth yr aelodau. Ni wariwyd y £40 a nodwyd i dalu am y seminar.
5. Parth. Cof 183 / Chwefror / 07. Adroddodd y Cyng Ros Bellamy ar y ddogfen ymgynghori. Argymhellodd fod CSC yn parhau i ddatblygu taith Tywi o Lansteffan i Lyn Brianne ac y bydd yn anfon ei sylwadau ymlaen i CSC.
6. Parth. Cof 183/Chwefror/07 – Ymgyrch Lanhau. Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Cynghorwyr drefnu glanhau Parc Penlan fel rhan o'r ymgyrch. Eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price. Roedd pawb o blaid.
Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins y dylid anfon llythyr at Gymdeithas Tai Gwalia yn nodi fod y Cyngor yn poeni am gyflwr gwael y man chwarae, gan eu gwahodd hwy i fod yn rhan o'r ymgyrch lanhau. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Fran Murphy.
7. Parth Cof 184/Chwefror/07. Gohebiaeth gan Mr Paul Morris CSC mewn perthynas â chŵn yn baeddu. Penderfynwyd y dylid gofyn i CSC i fabwysiadu pob mesur er mwyn atal y gweithgaredd hwn ym Mharc Penlan ac Ysgubor Abad.

Cof 194/Chwefror/07 Materion Ariannol

1. Anfonebau i'w Talu
   Costau Postio'r Clerc £66.79

Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid gwneud y taliad. Eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

2. Materion Ariannol Eraill
   i) Archwiliad 2006/7
   Mynegodd y Swyddog Cyllid bod Mr Lyn Llewellyn wedi cytuno i weithredu fel yr Archwiliwr Mewnol. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Mr Llewellyn yn penodi ei benodiad yn unol â Cof 167/Ionawr/07.4..Bydd yn rhaid cymeradwyo'r cyfrifon diwedd blwyddyn erbyn cyfarfod Cyllid mis Mehefin i'w cadarnhau gan y Cyngor Llawn ar y 27ain Mehefin 2007. Bydd yn rhaid cwblhau'r Archwiliad erbyn 31ain Awst 2007.
   ii) Arddangosfa Tân Gwyllt
   Adroddodd y Swyddog Cyllid am ei bryder ynglŷn â'r weithdrefn i ddod o hyd i incwm gan hysbysebwyr y rhaglen arddangosfa Tân Gwyllt. Cynghorydd y dylid yn y dyfodol, ddarparu rhestr lawn o hysbysebwyr a dyledwyr posib gyda datganiad clir yn datgan yr incwm, ar yr adeg honno neu unrhyw ddigwyddiad arall. Dywedodd y Cyng Hugh Towns fod y materion a godwyd wedi'u trin gan yr is bwyllgor Tân Gwyllt.

Cof 195 /Chwefror/07 Trafnidiaeth a Goleuadau
Ni chodwyd unrhyw faterion

Cof 196 /Chwefror/07 Adroddiad y Maer
Rhoddodd y Maer Cyng Hugh Towns rhestr ysgrifenedig o'r holl gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor dros y mis aeth heibio. Rhoddir y manylion hyn ar wefan y Cyngor.

Cof 197/Chwefror/07 Y Prosiect Treftadaeth
Cyflwynodd y Cyng Ros Bellamy adroddiad ysgrifenedig terfynol. Rhoddir hyn ar y wefan. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â dosbarthu taflenni. Bydd y Cyng Colin Jenkins yn dosbarthu rhai yn lleol. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Caron Promotions i holi ynglŷn â nifer y taflenni sydd ganddynt yn ei meddiant. Trafodir y cwestiwn o ail-archebu yn y cyfarfod nesaf.

Cof 198/Chwefror/07 Prosiect Neuadd y Sir
Adroddodd y Cyng Ieuan Gwyn bod rhestr o broblemau nas ragwelwyd wedi'i baratoi ar gyfer yr adeiladwr gan nodi cyfnod cadw cyn y gellir ei gwblhau.

Cof 199 /Chwefror/07 Yr Is grŵp Iechyd
Cynigiodd y Cyng Charlotte Leadbeater y dylid anfon llythyr o ddiolch at Dr Lewis am drefnu'r ymweliad â'r feddygfa. Gofynnodd y Cyng Hugh Towns i aelodau erbyn y cyfarfod nesaf ystyried sut y gellir delio a datblygu o ran anghenion y feddygfa a'r llyfrgell.
Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins y dylid gohirio Rheol Sefydlog Rhif 6 am 20 munud er mwyn medru cwblhau busnes y Cyngor.

Cof 200/Chwefror/07 Prosiect yr Ardd Gymunedol.
Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cyng Fran Murphy, yn nodi os fydd yr Ardd yn parhau o dan berchnogaeth y Cyngor, bydd angen adeiladu teras,

mynediad diogel a ffin swyddogol ar hyd Ysgubor Abad. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylai'r is weithgor dderbyn cymeradwyaeth er mwyn llunio manylebion i gontractwyr. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylid rhoi cymeradwyaeth i'r Cyng Fran Murphy a'r Cyng Pam Steane Price fynychu Ffederasiwn Ffermydd Dinas a Gerddi Cymunedol yng Nghwmbran ar 22ain Mawrth ar gost o £5 yr un gan gynnwys costau teithio. Eiliwyd hyn gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 201 / Chwefror / 07 Gohiriwyd Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt tan y cyfarfod nesaf.

Cof 202 / Chwefror/ Adroddiad y Swyddog Technegol.
Agorir tendrau'r rhaglen cynnal a chadw Llwybrau Troed ar gyfer 2007-8 yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn ar Fawrth 28ain.

Cof 203 / Chwefror / 07 Enwebiadau ar gyfer Ethol Maer 2007-8
Cynigiwyd y Cyng Richard Wallace gan y Cyng Ros Bellamy. Eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng Richard Wallace yr enwebiad.

Cof 204 / Chwefror / 07 Enwebiadau ar gyfer Ethol Dirprwy Faer 2007-8
Cynigiwyd y Cyng Edward Thomas gan y Cyng Dawn Wallace. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng Edward Thomas yr enwebiad.

Cof 205 / Chwefror/ 07 Gohiriwyd yr eitem agenda ar ddiweddaru'r Wefan tan y cyfarfod nesaf oherwydd cyfyngiadau amser.

Cof 206 / Chwefror/07 Gohebiaeth i'w ystyried
1. Cyfarfod ar y cyd gyda Chyngor Tref Rhydaman, Cyngor Tref Llanymddyfri, Cyngor Tref Castell Newydd Emlyn ar 13eg Mawrth. Bydd y Cyng Dawn Wallace a'r Cyng Richard Wallace yn mynychu.
2. Adroddiad yr Awdurdod Tân. Bydd y Cyng Colin Jenkins yn archwilio i'r mater.
3. Cyfarfod y Gymdeithas Pridd yn Llambed 3.4.07. Nodwyd.
4. Cais am gymorth gan Cymuned. Nodwyd.
5. Cynhadledd Iechyd Mannau Gwyrdd. 15.3.07. Nodwyd.
6. Cais Dot CYM. Nodwyd.

Cof 207/Chwefror 07 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Cylchgrawn Un Llais Cymru
2. Grid Cenedlaethol – Prosiectau Cyswllt Nwy
3. Llywodraeth y Cynulliad – Strategaeth i Bobl Hŷn yng Nghymru
4. CAVS – Adroddiad Gwanwyn
5. FCFCG – gohebiaeth

Cof 208 / Chwefror – 07 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 10 p.m.